**Ymateb swyddogol Comisiynydd Plant Cymru i'r gwerthusiad o'i swyddfa.**

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu Comisiynydd Plant. Yn fuan wedi ei sefydlu yn 2001, aeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr i lawr yr un llwybr a phenodi eu Comisiynwyr eu hunain. Gan mai Cymru oedd yr arweinydd, mae'n eitha addas mai'r adroddiad hwn yw'r gwerthusiad cyntaf o'i fath o Gomisiynydd Plant yn y DU.


Roedd dod yn Gomisiynydd Plant Cymru ar 1 Mawrth 2008 yn brofiad cyffrous, ac eto'n frawychus i ryw raddau: roedd cymaint i'w ddysgu, cymaint i'w gynllunio, a chyn lleied o amser. Mae canfyddiadau ac argymhellion y prosiect gwerthuso gwrthrychol hwn – dan gyfarwyddyd gwych Nigel Thomas a'r grŵp llywio o bobl ifanc – wedi fy ngalluogi i neidio i'r dwfn ar unwaith. Mae adroddiad manwl y tîm wedi amlygu cryfderau a chyflawniadau fy swyddfa, ond hefyd wedi sôn am y meysydd lle mae angen datblygu pellach a mireinio.

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai negeseuon pwysig y mae angen i mi ymateb iddynt: yn bennaf yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth o'm rôl i a'r swyddfa. Rydym ni eisoes wedi cymryd camau i ymateb i hyn, ac rwy'n ymroddedig i sicrhau, erbyn 2015, pan ddaw fy nghyfnod i yn y swydd i ben, y bydd Comisiynydd Plant Cymru wedi'i sefydlu'n gadarn fel ffigwr adnabyddus sy'n chwarae rhan hanfodol yng nghymdeithas sifil Cymru. Ar ben hynny, rwy eisiau i blant a phobl ifanc Cymru fod yn gyfarwydd â'r rôl y dylai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei chwarae yn eu bywydau beunyddiol a deall y rôl honno.

Ni fyddai'r gwerthusiad yma wedi digwydd oni bai am ymroddiad a phenderfyniad tîm y prosiect a'r ffaith bod Peter Clarke a'r tîm mor agored ac yn dymuno dysgu trwy brofiad. Rwyf yn fawr fy nyled i'r plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a roddodd gymaint o'u hamser i sicrhau bod y prosiect hwn yn llwyddo. Rwy'n edrych ymlaen at gadw mewn cysylltiad â chi i gyd i adrodd ar y camau cadarnhaol y byddwn ni'n eu cymryd.

Rwy'n teimlo ei bod hi'n anrhydedd cael symud y prosiect hwn ymlaen ac adeiladu ar lwyddiannau cyfnod saith mlynedd Peter Clarke yn y swydd, a olygodd bod y swyddfa hon yn destun eiddigedd i Gomisiynwyr ac Ombwdsmyn ar draws y byd.

Yn dilyn fe gewch fy ymateb manwl i'r canfyddiadau a'r argymhellion.



Keith Towler,

Comisiynydd Plant Cymru.

Tachwedd 2008

## Ymateb i Werthuso Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Terfynol

## Argymhellion

1. ***Rydym yn argymell bod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r lefelau isel o ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd ymhlith plant a phobl ifanc. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys y Llywodraeth, sydd â'r pŵer a'r ddyletswydd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, a'u teuluoedd, yn medru derbyn gwybodaeth ac addysg am hawliau plant, ac am sefydliadau sy'n bodoli i eiriol ar eu rhan. Dylai hefyd gynnwys y cyfryngau, gan ein bod yn credu bod dyletswydd arnynt hwythau i ddarparu gwybodaeth o safon. (Mae angen i dîm y Comisiynydd wybod 'sut i drafod y cyfryngau', ond dylai'r cyfryngau hefyd wybod 'sut i drafod y Comisiynydd'.) Rydym yn awgrymu y gallai rhannau o'r cynllun gweithredu gael eu datblygu ar y cyd â swyddfeydd Comisiynwyr eraill y DU, sy'n wynebu materion tebyg.***

Mae mwy o adnoddau eisoes wedi cael eu darparu ar gyfer yr agwedd hon ar waith fy swyddfa, gyda swyddog Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn cael ei phenodi ym mis Ionawr 2008. Byddaf yn parhau i atgoffa Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cyfrifoldebau o dan Erthygl 42, a'r angen am hyrwyddo mentrau a sefydliadau – gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru – sy'n gysylltiedig â monitro a gweithredu CCUHP.

Mae is-grŵp Cyfathrebu a Chyfranogiad BINOCC eisoes yn ystyried sut mae cydweithio a rhannu dysgu ac adnoddau er mwyn gwella cywirdeb yr wybodaeth sydd ar gael am y gwahanol Gomisiynwyr a'u cylch gwaith. Bydd y grŵp hwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar brosiectau neu themâu penodol. Mae'r cyhoeddusrwydd diweddar ynghylch gwrandawiad cyn-sesiynol CCUHP a'r adroddiad ar y cyd yn enghraifft dda o'r hyn sy'n gallu cael ei gyflawni.

Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu, i gychwyn yn ffurfiol yn 2008-09, a bydd yn dod â llinynnau cyfathrebu, cyfranogiad a gwaith rhannu gwybodaeth sydd eisoes yn digwydd at ei gilydd. Er enghraifft:

- Cynllun treigl ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus i sicrhau bod sylw yn y cyfryngau mor effeithiol â phosib ac i nodi cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd ymhlith cynulleidfaoedd a rhanddalwyr allweddol.
- Amrywiaeth o ymweliadau, presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau eraill, gan ddefnyddio uned arddangos deithiol newydd Comisiynydd Plant Cymru, a gafodd ei phrynu ar gyfer y sioe deithiol 'amser siarad… amser gwrando…' ym mis Hydref 2008
- Ailddatblygu gwefan Comisiynydd Plant Cymru
- Estyn y cynllun Llysgenhadon Ysgol i gynnwys pob awdurdod lleol
- Dull gwahanol o weithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd, ar y cyrion a rhai agored i niwed
- Cysylltiadau â gwasanaeth addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys deunydd gweithdai am Gomisiynydd Plant Cymru a dosbarthu gwybodaeth i blant a phobl ifanc.

Bydd effaith y ffocws cynyddol ar waith hyrwyddo, yn enwedig y Sioe Deithiol, yn cael ei fesur a'i asesu.

Bydd y pwysigrwydd a roddir i godi proffil y Comisiynydd Plant yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ystyried strwythur trefniadol a dyraniadau cyllideb y dyfodol o 2009 ymlaen.

2. ***Fel rhan o'r uchod, rydym yn argymell bod pecyn gwell o wybodaeth yn cael ei ddatblygu i ysgolion gyflwyno'r Comisiynydd Plant yng nghyd-destun rhaglen o ddysgu am hawliau a dinasyddiaeth. Gallai DVD o safon, a fyddai'n cyflwyno holl amrywiaeth y gwaith mae swyddfa'r Comisiynydd yn ei wneud, gyfateb i rai elfennau o'r gwaith mae'r tîm yn ei wneud wrth ymweld ag ysgolion, a chael ei roi i bob ysgol ar yr un pryd. Gallai hefyd ryddhau'r tîm i dreulio mwy o amser yn cysylltu â grwpiau sydd ar y cyrion. Yn ogystal â'i ddefnyddio yn y dosbarth, gallai hefyd gael ei roi i gynghorau ysgol. Yn achos plant iau, awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr yn yr arolwg y gallai llyfr stori neu gartwnau fod yn ffordd dda o gyflwyno gwaith y Comisiynydd.***

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn a byddaf yn edrych ar ffyrdd o ddyrannu arian i sicrhau bod fy swyddfa yn medru symud ymlaen gyda hyn, gyda plant a phobl ifanc yn chwarae rhan lawn yn hynny yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r swyddfa eisoes wedi cynhyrchu DVD am wasanaethau'r tîm cyngor a chefnogaeth. Bydd y DVD hwn, y bu plant a phobl ifanc yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o'i gynhyrchu, yn cael ei ddosbarthu i ysgolion uwchradd yn 2009.

3. ***Rydym yn argymell bod yr arolwg mewn ysgolion yr ydym wedi'i sefydlu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn parhau, o ddewis yn flynyddol, er mwyn tracio newidiadau yn lefelau ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc. Rydym yn argymell bod swyddfeydd Comisiynwyr eraill y DU yn cael eu gwahodd i ystyried defnyddio'r un dull. Rydym hefyd yn argymell bod y tîm yn cadw cofnod systematig, hygyrch o'u hymweliadau â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a grwpiau eraill, i gynorthwyo wrth gynllunio ac wrth asesu unrhyw effeithiau ar lefelau ymwybyddiaeth.***

Mae tracio newidiadau yn y lefelau ymwybyddiaeth yn bwysig, ac rwy'n ystyried profiadau swyddfeydd Comisiynwyr eraill y DU wrth ddefnyddio dulliau eraill – megis arolwg barn – yn ogystal â'r arolwg mewn ysgolion a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad, cyn dod i benderfyniad ar y ffordd orau o wneud hyn yn y dyfodol.

Bydd gwelliannau yn systemau rheoli gwybodaeth y sefydliad yn golygu ei bod hi'n haws cael gafael ar y cofnodion ysgrifenedig sy'n cael eu cadw eisoes a'u dadansoddi. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i fapio gwaith presennol a gwaith a gynigir i gynyddu ymwybyddiaeth ac i asesu effaith.

4. ***Rydym yn argymell bod pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn ystyried sut gallan nhw sicrhau bod gan***

***y staff wybodaeth ddigonol am rôl y Comisiynydd. Gofynnodd rhai gweithwyr proffesiynol a allen nhw dderbyn llythyr newyddion electronig rheolaidd, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y swyddfa a digwyddiadau i ddod, ac rydym ni'n argymell bod hynny'n cael ei ystyried.***

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn ac yn gwerthfawrogi cyfraniad oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i roi'r gair ar led am y Comisiynydd a gwaith y tîm. Mae llythyr newyddion electronig eisoes yn cael ei ystyried, ac mae cyfathrebu ag oedolion allweddol a rhoi gwybodaeth iddynt yn flaenoriaeth yn ein strategaeth gyfathrebu.

5. ***Rydym yn argymell gwneud mwy o ymchwil i werthuso effaith ymyriadau'r Comisiynydd ym maes polisi, gan adeiladu ar y gwaith rydym ni wedi'i ddechrau.***

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn, a byddaf yn ystyried sut mae modd cefnogi ymchwil pellach, yn ogystal ag edrych ar sut gallwn ni sicrhau bod ein systemau rheoli gwybodaeth mewnol yn ein helpu i werthuso'r effaith.

6. ***Rydym yn argymell bod penderfyniad yn cael ei wneud i werthuso gwasanaeth cyngor a chefnogaeth y Comisiynydd, gan dynnu ar bersbectif y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cyfeirio ato, ac edrych yn systematig ar ganlyniadau atgyfeiriadau. Rydym ni'n hyderus bod modd gwneud hyn yn foesegol ac yn effeithiol.***

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn a byddaf yn edrych ar ffyrdd o'i ddatblygu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

7. ***Rydym yn argymell adolygiad o swyddogaeth a phwrpas y gwasanaeth cyngor a chefnogaeth, ar y cyd â darparwyr eiriolaeth, gyda'r nod o sicrhau bod swyddfa'r Comisiynydd yn dod yn ganolbwynt effeithiol ar gyfer materion a phryderon sy'n deillio o wasanaethau eiriolaeth. Rydym ni'n credu bod angen gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol annibynnol ar frys, yn unol ag argymhelliad y Comisiynydd (a bellach ag argymhelliad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad), a hoffem weld swyddfa'r Comisiynydd yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth hwnnw fel bod modd defnyddio pwerau sylweddol swyddfa'r Comisiynydd i'r eithaf i sicrhau canlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc. Dylai'r Comisiynydd fedru gweithredu fel cyswllt ar gyfer materion sy'n dod o'r gwasanaethau eiriolaeth, ac fel adnodd i ddarparwyr eiriolaeth pan fod angen 'pŵer' ychwanegol arnynt. Mae'n hanfodol sicrhau cysylltiadau da fel bod yr holl bartïon yn rhannu dealltwriaeth o rôl y Comisiynydd a sut mae'n wahanol i ddarparwyr eiriolaeth eraill.***

Bydd elfennau o'r argymhelliad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymateb i Argymhelliad 6 uchod. Bydd cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol, cysylltiadau â darparwyr eiriolaeth ac asiantaethau eraill, a'r defnydd mwyaf effeithiol o bwerau

cyfreithiol y Comisiynydd i gyd yn cael eu hystyried fel rhan o'm hadolygiad o'r sefydliad a datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd.

8. ***Rydym yn argymell bod y Comisiynydd newydd yn cynnal adolygiad helaeth a thrwyadl o swyddogaethau'r Comisiynydd a threfniadaeth y swyddfa, gyda'r nod o sicrhau bod yr holl aelodau a rhannau o'r sefydliad yn rhannu dealltwriaeth o'u cyfraniad at y nod cyffredin, ac yn cydweithio'n effeithiol. Gall hyn alw am ailstrwythuro, ac os felly, dylid gwneud hynny.***

Rwyf wrthi'n adolygu strwythur y sefydliad ac yn datblygu dull thematig a fydd yn helpu i wireddu fy ngweledigaeth i ohonom yn gweithio'n strategol ac yn effeithiol er mwyn cyflawni newid ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y broses hon yn cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a bydd y strwythur newydd a'r Cynllun Corfforaethol yn eu lle erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ym mis Ebrill 2009.

9. ***Rydym yn argymell ystyried sefydlu tîm bach penodol i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar fuddiannau plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal. Gallai hyn alluogi'r swyddfa i ddangos yn glir yr ymrwymiad cadarn i'r grŵp arbennig yma.***

Bydd fy adolygiad o'r sefydliad yn cynnwys ystyried yr argymhelliad hwn. Os na chaiff ei ddatblygu fel yr amlinellwyd yma, byddwn yn ystyried sut mae gwneud yr ymrwymiad cadarn i blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn fwy amlwg weladwy – yn enwedig i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.

9. ***Ym mis Hydref 2007 cyflwynodd y Dirprwy Gomisiynydd (fel rhan o'i sylwadau mewn ymateb i ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch plant agored i niwed a thlodi plant), gyfres o un deg chwech o argymhellion ar gyfer cryfhau pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd, a ddrafftiwyd gan y Dr Osian Rees (Atodiad 12). Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn ceisio egluro a chryfhau pwerau'r Comisiynydd, gan gynnwys y pwerau o ran materion heb eu datganoli, ac yn gyffredinol rydym yn cefnogi'r rhain. Tri argymhelliad yr hoffem dynnu sylw arbennig atynt yw y dylai'r Comisiynydd: gyflawni swyddogaeth cynnal neu gomisiynu ymchwil, a gweithgareddau addysgiadol; bod o dan ddyletswydd i ddatblygu cysylltiadau effeithiol â sefydliadau anllywodraethol; a bod o dan ddyletswydd i adolygu effeithiolrwydd ei bwerau a'i swyddogaethau yn rheolaidd.***

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn.

10. ***Rydym hefyd yn cefnogi argymhellion Grŵp Monitro CCUHP y dylai'r Cynulliad drosglwyddo cyllido'r Comisiynydd Plant o Lywodraeth y Cynulliad i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth i rymuso Comisiynydd Plant Cymru i ymchwilio i unrhyw fater sy'n effeithio ar***

***unrhyw blentyn sy'n byw yng Nghymru fel arfer a chyflwyno sylwadau arno, gan sicrhau felly bod y swyddfa'n gweithredu'n unol ag 'egwyddorion Paris'.***

Rwy'n cefnogi ac yn croesawu'r argymhelliad hwn, sydd hefyd yn cael ei gadarnhau yn adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

***11. Rydym yn argymell ystyried o ddifri lleoli prif swyddfa'r Comisiynydd yng nghanol dinas, lle bydd yn fwy gweladwy i'r cyhoedd ac yn haws i bobl alw heibio, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus. Dylai swyddfeydd lleol, os cânt eu datblygu, hefyd fod yn weladwy ac yn hawdd eu cyrraedd.***

Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ystyried yn ofalus iawn ac mae'r pwyntiau yn yr adroddiad gwerthuso ynghylch bod yn hygyrch ac yn weladwy yn rhai da. Fodd bynnag, o ystyried lefelau'r ariannu presennol gan LlCC a thelerau'r brydles ar yr adeiladau lle rydym ni nawr, mae'n annhebygol y bydd modd symud yn y tymor byr. Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn o ddifri pan fydd cyfle'n codi i adleoli neu agor swyddfeydd ychwanegol yn y dyfodol.

***12. Yn olaf, rydym yn argymell ystyried newid enw'r swyddfa i gynnwys 'pobl ifanc' yn ogystal â 'phlant' (fel sy'n wir yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban). Dyw pobl ifanc yn eu harddegau ddim yn tueddu i feddwl amdanynt eu hunain fel plant, ac yn ystod y peilot ar gyfer holiadur yr arolwg ysgolion, allai un grŵp o fyfyrwyr coleg ddim deall pam roedd y 'Comisiynydd Plant' yn berthnasol iddyn nhw o gwbl. Mae'n ymddangos yn bwysig y dylai pob plentyn a pherson ifanc fedru gweld y swyddfa fel rhywbeth sydd yno iddyn nhw.***

Mae staff Comisiynydd Plant Cymru'n gyfarwydd ag anawsterau teitl y Comisiynydd a'r swyddfa wrth weithio gyda phobl ifanc a chynyddu ymwybyddiaeth. Am y tro, o leiaf, does dim bwriad i ychwanegu at enw sydd eisoes yn hir. Mae'n bosib y byddai modd ystyried newid y teitl yn ffurfiol pan gaiff Mesur ei ddrafftio ar bwerau'r Comisiynydd yn y Cynulliad. Ar ben hynny, rwy'n debygol o ystyried y canlynol yn y tymor canolig:

a) a fyddai o gymorth i ddewis enw gwahanol ar gyfer y sefydliad sy'n cyfleu'n effeithiol ein bod yma ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â phlant iau;
b) a oes modd gwneud unrhyw newidiadau i sut mae'r Comisiynydd a'r sefydliad yn cael eu hyrwyddo, i sicrhau bod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o ystod oed ein gwaith.